**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Mawrth 2017

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad ar Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru). Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar gael ar dudalen y Bil ar y wefan.

**Cylch gorchwyl**

Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad:

Wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

Ystyried —

1. egwyddorion cyffredinol y Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni bwriad datganedig y polisi, sef diogelu cyflenwad tai cymdeithasol rhag dirywiad pellach yn wyneb y galw uchel a'r prinder tai,
2. darpariaethau'r Bil mewn perthynas â'r canlynol:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- y cyfyngiad ar arfer yr hawl i brynu a'r hawl i gaffael (adrannau 2 i 5);
- diddymu'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael (adran 6);
- diddymu'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud grantiau gostyngiad (adran 7);
- y ddyletswydd i roi gwybodaeth i denantiaid a darpar denantiaid,

3. unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith, ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hyn,
4. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil, a
5. goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

## Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo â'i waith o ystyried y Bil. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **dydd Gwener 28 Ebrill 2017.**

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

## Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i rai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

## Polisi dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwyliwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn http://www.cynulliad.cymru/PrifatrwyddYmchwiliadau. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

**Manylion cyswllt**

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:


Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.

E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
Rhif ffôn: 0300 200 6565


Yn gywir,

John Griffiths AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**